**Ken Skates AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-632
Ein cyf/Our ref KS/00450/15

William Powell AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Ty Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru

22 Ebrill 2015

Annwyl William Powell AC,

Diolch ichi am eich llythyr a ddaeth i law ar 10 Ebrill ar fater deiseb P-04-632 gan Mynyddoedd Pawb ynghylch diogelu enwau lleoedd Cymraeg.

Mae'r ddeiseb yn un ddiddorol. Mae enwau lleoedd cynhenid Cymraeg ac enwau cynhenid Cymraeg ar nodweddion daearyddol yn rhan bwysig o'n hanes a'n diwylliant. Maent hefyd yn dystiolaeth werthfawr o ddefnydd tir yn y gorffennol a gallant ddyfnhau ein dealltwriaeth a'n gwerthfawrogiad o fannau a safleoedd hanesyddol.

I roi rhywfaint o gyd-destun ichi, nid oes gan Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb uniongyrchol dros enwau lleoedd nac enwau nodweddion daearyddol yng Nghymru. Mae gan amryw o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys yr awdurdodau lleol ac awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, rôl yn penderfynu ar ffurf a sillafiad swyddogol enwau lleoedd ac enwau nodweddion daearyddol. Sylwaf fod y ddeiseb yn cyfeirio at y system gynllunio yng Nghymru ond nid yw'r mater hwn o fewn fy mhortffolio i.

Mae Comisiynydd yr Iaith Gymraeg yn rhoi cyngor ar ffurf safonol enwau lleoedd Cymraeg yng Nghymru. Serch hynny, dylwn bwysleisio nad oes gan unrhyw gorff cyhoeddus y pŵer i orfodi eraill i ddefnyddio un ffurf benodol ar enw ar draul ffurfiau eraill.

Ond mae ffyrdd eraill o ennyn parch at enwau lleoedd Cymraeg, ac o geisio eu diogelu. Er enghraifft mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn un o’r rhai sy’n rhedeg y fenter Cymru 1900 Wales.org, sy’n chwilio am wirfoddolwyr i gofnodi holl enwau lleoedd Cymru fel yr oeddent yn ymddangos ar fapiau’r Arolwg Ordnans ddiwedd oes Fictoria. Mae hwn yn brosiect arloesol, torfol, a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y Comisiwn Brenhinol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Prifysgol Cymru a Chasgliad y Werin. Gobeithio y bydd y fenter hon yn arwain y ffordd at fwy o ymchwil gydweithredol a phrosiectau gwirfoddoli ar-lein yn y dyfodol a fydd yn helpu i fynd i’r afael â’r pryderon sydd wedi arwain at y ddeiseb hon.

Yn gywir,

**Ken Skates AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism